

Hafan
Pori
Awduron A-Z
Chwiliad testun rhydd
Chwiliad testun rhydd

English

PDF Argraffu Cyfeirnod

Llinell Amser English

SIDNEY, Syr HENRY (1529 - 1586), Penshurst, Caint, llywydd Cymru
(cyngor y goror)

Enw: Henry Sidney
Dyddiad geni: 1529
Dyddiad marw: 1586
Plentyn: Mary Herbert (née Sidney)
Plentyn: Robert Sidney
Plentyn: Philip Sidney
Rhw: GWRW

Galwedigaeth: llywydd Cymru (cyngor y goror)

Maes gweithgaredd: Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: Arthur Herbert Dodd

o 1559 hyd ei farw. Yr oedd yn nodedig yn herwydd hyd cyfnod ei weinyddiad ac am y cyfuniad o allu, cryfder, a chydymdeimlad a nodweddiad'r gweinyddu hwnnw. Sefydlodd gysylltiadau cyfeillgar â theuluoedd bonheddig Cymru. Dangosir ei ddiddordeb yn niwylfaint cenedl y Cymry a hynafiaethau'r wlad yn ei sêl yn peri cadw a dosbarthu'r cofysgrifau yn Llwydlo a ddefnyddiwyd gan **David Powel** (goda phob cymhelliaid a chymorth gan Sidney) i ychwanegu at gasgliadau **Humphrey Llwyd** fel sylfaen ei *Historie of Cambria* (1584); dangosir ei ofal dros fuddiannau materol y wlad yn ei arbrofion i ddatblygu diwydiant haearn de-ddwyrain Cymru gyda chymorth gweithwyr celfyddyd a ddygwyd o'r Almaen (c. 1560) ac i gael copr o Fynydd Parys, sir Fôn, trwy'r drull a elwir yn 'precipitation.' Ceisiodd setlo'r cwerly rhwng ei frawd-ynghyfraith, iarlwr Leicester, a **Syr Richard Bulkeley** ynglŷn â'r 'Forest of Snowdon'; yn y cwerly hwnnw cynorthwydd **Bulkeley** gan amryw o sgwieriaid Sir Gaernarfon a oedd yn tueddu at Babyddiaeth; y pryd hwn cafodd Sidney ei hunan ei ddwrddio am ei fod yn rhy gleaer gyda'r gwaith o weithredu yn erbyn Pabyddion - dyna paham, efallai, y cofid gyda mesur o serch am gyfnod gweinyddiad Sidney hyd yn oed gan wrthwynebwyr crefyddol a gweilyddol megis **Hugh Owen**, Plas Du. Yr oedd yn absennol yn y gwasanaeth diplomyddol yn 1562 ac yn lwerddon am y rhan fwyaf o 1565-71 a 1575-8; eithr rhoddid gwybod iddo beth a oedd ar droen gan yr is-lywyddion a oedd yn ddirprwyon iddo, a gweithiai'r trefniant hwn yn esmwyth yng nghynffod William Gerard (1562), ond nid mwr esmwyth o dan yr esgob Whitgift - nid oes ddadl nad oedd effeithlioddeb gweinyddiad Sidney yn dioddef gan y toriadau hyn a'r gwrthweithio a ddilynodd yn eu sgil. Pan oedd yn gwasanaethu yn rhinwedd ei swydd yr oedd yn byw gan mwyaf yng nghastell Llwydlo; gwnaeth lawer o welliannau yn y castell hwnnw (ac yng nghastell Trefaldwyn), ac yno y dug ei deulu i fyny. Teimlai ei fod yn cael mwy o fodlonrwydd yn ei waith yng Nghymru nag yn Iwerddon; profir hyn gan ei deyrnged - 'A better country to govern Europe holdeth not,' a chan ei ddeisyfiad symbolig am gael claddu ei gorff yn Penshurst eithr ei galon yn Llwydlo - yr hyn a wnaethpwyd.

Cadwyd y cysylltiad â Chymru ymlaen gan ei deulu. Pan nad oedd ond 12 oed cyflwynwyd ei aer, Syr Philip Sidney (1554 - 1586), i reithoraeth Ieyg Whitford (Sir y Fflint), gwerth £60 y flwyddyn. Priododd ei ail fab (a'i aer fel y digwyddodd), ROBERT SIDNEY (1563 - 1626), iarll Leicester yn ddiweddarach, â **Barbara Gamage**, aeres stad y Coety, Syr Forganngw, 23 Medi 1584; daeth ef yn aelod seneddol (1585 a 1592) dros y sir honno ac yn ustus heddwch ynddi (1625). Etifeddwyd y stad gan ddisgynyddion Leicester; yn eu plith yr oedd ei ŵyr, ALGERNON SIDNEY (1622 - 1683), a etholwyd, 17 Gorffennaf 1646, i ddilyn yr aelod seneddol brenhinol dros Gaerdydd (a laddwyd ym mwrwydr Edgehill), ac a fu yn y blynyddoedd dilynol yn aelod o amryw bwyllgorau sir ym Morgannwg. Priododd MARY SIDNEY (1561 - 1621), merch Syr Henry Sidney, â **Henry Herbert, ail iarll Pembroke**.

Awdur

Yr Athro Emeritus Arthur Herbert Dodd, (1891 - 1975)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography

Collins, *Letters and Memorials of State, in the reigns of Queen Mary, Queen Elizabeth, King James, King Charles the First, part of the reign of King Charles the Second, and Oliver's usurpation. Written and collected by Sir Henry Sydney & Sir Philip Sydney, and his brother Sir Robert Sydney & Robert, the second Earl of Leicester & Philip, Lord Viscount Lisle & of his brother Colonel Algernon Sydney & Together with letters of the other ministers of state, with whom they held a correspondence &c* (Llundain 1746), i, 1-5, 95-6, 213-4, 273-9

J.M. Traherne, *Stradling Correspondence, a series of letters [addressed to Sir E. S.] written in the reign of Queen Elizabeth with notices of the family of Stradling of St.*

Donat's Castle, Co. Glamorgan (Llundain 1840), 11-22

Caroline A. J. Skeel, *The Council in the Marches of Wales a study in local government during the sixteenth and seventeenth centuries* (Caergrawnt 1904), 85-113

J. Strype, *The life and acts of John Whitgift Archbishop of Canterbury with a large Appendix of papers, etc.* (1718), ii

G. T. Clark, *Limbus Patrum Morganiae et Glamorganiae* (1886)

Bradney, *A History of Monmouthshire*, iv, 80

Calendar of Wynn (of Gwydir) Papers, 1515–1690, in the National Library of Wales and elsewhere, 471

D. J. Davies, *The Economic History of South Wales prior to 1800* (1933), 74-5

W. R. Williams, *The parliamentary history of the principality of Wales, from the earliest times to the present day, 1541-1895* (Brecknock 1895), 96, 106

Y Cymmrodor, xiii, 119-63

Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion, 1948, 10

Firth a Rait, *Acts and Ordinances of the Interregnum, 1642â€”1660* (London 1911)

Delweddau

William Thomas Fry, Marcus Gheeraerts, Mary Sidney, Countess of Pembroke ob. 1621

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 22385418

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

- PDF
- Argraffu
- Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Dodd, A. H., (1953). SIDNEY, Syr HENRY (1529 - 1586), Penshurst, Caint, llywydd Cymru (cyngor y goror). *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-SIDN-HEN-1529>

Helpwörter

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu



LLYFRGELL
THE NATION



Nodedig gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government